YR YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1901. [RHIF 3.

UN O ARWYR Y GANRIF DDIWEDDAF.

ADNABYDDIR y ganrif sydd newydd derfynu fel canrif yr ymchwiliadau. Yn mhob maes mae dynion wedi bod yn ceisio taflu ychydig oleuni ar y dirgelwch sydd yn amgylchu bywyd dyn yn y byd. Nid yw crefydd hefyd wedi dianc. Mae ambell i ganrif yn enwog am y cyffroadau mawr a disymwth a gymerasant le yn ei chwrs,—cyffroadau a gynhyrfasant gymdeithas i'r gwaelodion. Y fath oedd canrif Luther ac eraill ar Gyfandir Ewrop, canrif Latimer a Ridley yn Lloegr, a chanrif y diwygwyr Cymreig. Perodd y rhai hyn gyffroadau a gynhyrfasant gymdeithas drwyddi, fel y mae eu heffaith i'w deimlo o hyd. Nid yw'r ganrif sydd newydd derfynu wedi bod yn llygad-dyst o ddim o'r natur hyn, ond y mae, er hyny, wedi bod yn llygad-dyst o gynydd parhaus o'i dechreu hyd ei diwedd.

Efallai nad yw'r cynydd hwn mor amlwg yn un cyfeiriad ag ydyw yn maes ymchwiliad Beiblaidd. Yn ystod y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg y dechreuodd dynion gyntaf chwilio'r Beibl yn ngoleu hanes a rheswm. Un o'r rhai cyntaf i anturio i'r maes hwn oedd yr ESGOB COLENSO ; yn sicr, efe oedd y cyntaf o bwys, tu allan i gylch cyfyng y mudiad rhyddfrydig, i gyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliadau. Hyd hyny, hyrddid enwau cas ac anymunol at bob un a feiddiai ddweyd nad oedd y Beibl o'r natur anffaeledig ag yr honai dynion ei fod. Ond yn ddirybudd bron daeth llyfrau COLENSO i'r wersyllfa iawnffyddol ; a thrwy ddangos fod camsyniadau yn llyfrau cyntaf y Beibl, ac nad oedd yn bosibl mai Moses oedd wedi ysgrifenu yr oll o honynt, taflodd i lawr un o ddelwau mwyaf anwyl y byd Cristionogol.

Yr oedd dylanwad yr hyn a wnaed gan yr Esgob yn cyrhaedd yn mhell. Pan yr argyhoeddid dynion fod ei gasgliadau mewn perthynas i'r Pum' Llyfr cyntaf yn iawn, ac felly fod anffaeledigrwydd y llyfrau hyn yn anmhosibl, awgrymid y gofyniad pellach i'w meddyliau, beth am anffaeledigrwydd y gweddill o'r Beibl? Ac y mae'r gofyniad hwn wedi esgor ar ganlyniadau pwysig. Mae, yn un peth, wedi cyfnewid barn prif ysgolheigion Beiblaidd y ganrif bron yn

llwyr am natur y Beibl,—nid llyfr anffaeledig mwyach, ond llyfr dynion, y rhai a lefarasant ac a ysgrifenasant fel yr oedd yr yspryd yn eu cynhyrfu.

Gwaith y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yw hyn bron yn llwyr,—yn wir, gellir dweyd mai gwaith y deugain mlynedd diweddaf ydyw. Ac yr ydym yn ddyledus, i raddau helaeth am dano i'r EsgobColenso, a gellir dweyd yn mhellach, ein bod yn ddyledus, bron yn hollol, i ysgolheigion perthynol i'r un eglwys ag yntau am gario'r ymchwiliad yn mhellach nag y gwnaeth efe, yn enwedig am gyhoeddi ffrwyth eu hymchwiliadau yn ddiofn.

Ond hyn sydd yn hynod, a chalonogol hefyd: tra y cafodd yr Esgob Colenso ei erlid am yr hyn a wnaeth ef, mae ysgolheigion perthynol i'r un eglwys heddyw yn cael perffaith lonyddwch a rhyddid i gyhoeddi llyfrau o'r un natur yn hollol ar ranau eraill o'r Beibl. Ac nid yw eu gwaith yn ddinystriol i ffydd a Christionogaeth, fel y mae llawer yn barod i feddwl, ond y mae yn wasanaeth gwir werthfawr i grefydd ac i ddynoliaeth; oherwydd i'r graddau y bydd dynion yn dod i ddeall natur y Beibl yn well, i'r un graddau y deuant hefyd i'w wir werthfawrogi, a daw felly yn ffynhonell mwy gwerthfawr yn barhaus o ddoethineb, ac yn ysgogydd mwy nerthol i weithredoedd ardderchog er gwasanaeth i ddyn.

Nid yw'r byd, fel rheol, yn adnabod ei gymwynaswyr goreu hyd nes wedi ei amddifadu o honynt. Felly y bu mewn cysylltiad ag Esgob Colenso. Yn ei ddydd, bu yn ddafad ddu yn mhlith ei frodyr offeiriadol; a dim ond ambell un oedd yn gallu gwerthfawrogi yr yr hyn a wnelai, ac yn meiddio cydymdeimlo ag ef. Ond mae amser yn dwyn oddiamgylch gyfnewidiadau rhyfedd. Erbyn hyn, y mae pob un a gar weled cynydd yn nghyfeiriad syniadaeth dduwinyddol mwy rhesymol a dynol yn parchu ei enw; a'i safle dduwinyddol ef ydyw eiddo nifer luosog a chynyddol o ysgolheigion blaenaf yr Eglwys Wladol heddyw.

AR Y TROTHWY.

Gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.

GYDA'CH cenad, Olygwyr parchus, cymeraf i fyny linyn fy hanes eto, o'r man y gadewais ef yn rhifyn Ionawr, ac âf yn mlaen.

Y mae Thomas Evans, Penpistyll, (1766—1833) dybiaf, yn un o'r cymeriadau mwyaf dyddorol yn hanes yr enwad. Fe'i ganwyd yn Brechfa, lle anghysbell, gwledig, prin o bobl, o rieni tlawd yn mhethau'r byd, ond parchus a chyfrifol yn ngolwg eu cymydogion.

Prin, yn naturiol, fu ei addysg fore; ond fe ddysgodd ddarllen Cymraeg, ac fe'i meddianwyd er yn blentyn gan awydd aniwall am wybodaeth. Sut y daeth o hyd i enw Priestley a'i ddaliadau y mae'n rhy anhawdd dweyd erbyn heddyw, ond cawn ei fod yn ieuanc iawn wedi derbyn y llysenw "Priestley bach," ac mor bell ag y gwn i, efe oedd Priestleydd cyntaf Cymru. Gweydd oedd ei dad, a gorfu iddo yntau, oherwydd prinder amgylchiadau gartref, ddysgu yr un grefft. Yr oedd wedi bod yn was fferm am ryw dymor cyn hyn. Caffai bob chwareu teg gartref i ddilyn ei efrydiaethau. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, a chan ei fod yn ddyn ieuanc o dalentau dysglaer, a chof gafaelus, daeth yn fuan, berchen ar wybodaeth hwnt i'r cyffredin. Yr oedd hefyd yn angerddol frwdfrydig dros ei syniadau, yn barod bob amser i'w hamddiffyn, ac yn defnyddio pob cyfleustra i'w cyhoeddi. Nid yw yn anhebyg nad oedd ei dad yn cydymdeimlo a'i syniadau, ac felly nid oedd rhaid o'i du ef iddo eu celu. Gan nad oedd un lle addoliad y gallai deimlo yn gartrefol ynddo yn nes, arferai gyrchu i Alltyplaca, pellder o ryw ddeg neu bymtheg milldir. Fe briododd yn ifanc iawn, a dywedir iddo gael rhyw flwyddyn o addysg ar draul y Gymdeithas Seisnig rywbryd wedi hyny.* Ceisiodd roddi anfarwoldeb i ddau o'i blant drwy eu galw, y naill yn Joseph Priestley, a'r llall yn Theophilus Lindsey, y ddau enw mwyaf amlwg ar faes yr enwad ar y pryd; ond profodd y baich yn rhy drwm i'r ddeuddyn eu cario yn anrhydeddus.

Tua 1786, fe drwyddedodd ei dad ran o'i dŷ iddo bregethu ynddo, ac oddeutu deng mlynedd yn ddiweddarach, gyda chynorthwy Trysorfa y Gymdeithas yn Llundain, fe godwyd tŷ bychan iddo, yr hwn a adwaenid fel Ty Cwrdd, Cwmcothi,† y cyntaf yn Nghymru a gyflwynwyd at wasanaeth yr un Duw, y Tad. Yr oedd ei ddwy bregeth, "Penarglwyddiaeth y Tad," a "Dadganiad Ffydd," wedi eu traddodi a'u cyhoeddi cyn hyn, y naill yn 1792, a'r llall yn 1794. Yr oedd y ddwy yn ddangoseg pur ffafriol o sefyllfa feddyliol y gwr ieuanc ac o'r yspryd "myn'd" oedd ynddo. Yr oedd Thomas Evans eisoes yn *advanced* yn ei dduwinyddiaeth, ac yn *advanced* yn ei syniadau gwleidyddol. Gyrai ei eiriau allan yn eiriasboeth, pa un ai ar lafar neu ynte drwy y wasg; dynoethai ormes a phregethai "Iawnderau Dyn" gyda brwdfrydedd. Pan gafodd ei urddo (?) fe ddechreuodd rhagfarn ddangos ei danedd erchyll, a phan welwyd Undodiaeth yn lledu ei hesgyll dipyn yn yr ardal, fe ganodd un brawd selog fel hyn:

---

* Fe ddywed ei fywgraffydd yn "Ngardd Aberdar," (1854) mai yn yr Ysgol Ramadegol yn Abertawe y bu, a bod ganddo chwech o blant ar y pryd. Mae'r sylw am y plant yn anhebygol iawn, a'r argraff ar fy meddwl i yw mai yn y Coleg y bu a'i fod yno yn amser y Dr. Charles Lloyd, nid yn ddiweddarach na 1788. Symudwyd y Coleg o Abertawe i Gaerfyrddin yn 1795.

† Nid oedd y gair bastardd "capel" wedi cael derbyniad eto yn Nghymru.

" Mae'r mawn ar y mynydd bron darfod i gyd,
A'r glô yn y pyllau yn treulio o hyd,
A'r ddaear bron ffaelu dwyn bara na had,
Oherwydd mawr gabledd Sosiniaid y wlad."

Blynyddoedd cyffrous ar lawer ystyr oedd blynyddoedd diwedd y ddeunawfed ganrif. Yr oedd mudiad y Dadeni (*Renaissance*) megys diluw mawr wedi pasio dros Gyfandir Ewrop, ac o dan ddylanwad ysgrifeniadau Voltaire, a Volney, a Rousseau, yn Ffrainc, a Tom Paine, ac eraill, yn Lloegr, wedi tori ar draeth llawer cilfach a glàn anghysbell ac anisgwyliadwy. Ceir adsain o honi yn fore yn llenyddiaeth Cymru, megys yn Emyn Dafydd Llwyd (336 yn *Emynau Mawl*), yr hwn a fu farw yn 1779. Sylwn ar y ddau benill hyn :

" Nid gwiw i feibion trais ymgodi'n groch eu llais
Fel tonau'r môr tua'th deyrnas hir ;
Ni thycia llidiog fryd, holl draws drigolion byd,
Fel tonau torant wrth y tir,

Doed pobloedd aml eu rhif, fel gwyllt gynddeiriog lif,
Ar chwydd i guro caerau'r nef ;
O Dduw, d' arswyd us wg eu gwallgo'n isel ddwg,
Saif yno fyth dy orsedd gref."

Cyhyd ag y parhaodd y mudiad yn fudiad egwyddorion yn unig, cawn fod rhai o brif ddynion ein gwlad mewn cydymdeimlad ; er engraifft, Edmund Burke,* yr areithydd, a'r gwladweinydd enwog, a'r bardd Wordsworth, ac eraill ; ond wedi i'r mudiad, o dan effaith tlodi a dygn eisiau angenrheidiau bywyd, gymeryd gwedd fygythiol yn Ffrainc, a thori allan yn chwyldroad ofnadwy, —y dorf yn cymeryd y llywodraeth yn eu dwylaw eu hunain, a chan waeddi Bara, Bara, Bara, yn rhuthro ar draws y Bastille,† gyrwyd braw drwy fynwes y rhai mewn awdurdod, gan beri i lawer oeddynt mewn cydymdeimlad fyned yn eu hol. Ni wnaeth Napoleon Bonaparte,—yr hen Fona, fel ei gelwid,—yn ei waith yn darostwng y terfysg yn ei ffordd greulawn ei hun, a thrachefn er mwyn porthi ei uchelgais, a chael rhywbeth i'w filwyr i'w wneud, yn eu gyru yn fuddugoliaethus o wlad i wlad, gan ddarostwng y naill ar ol y llall, ond anfon pethau o ddrwg i waeth. Aeth John Bull i grynu yn ei esgidiau ac yn ddrwgdybus o bob un a ystyrid yn ffafriol i ddiwygiad. Fel hyn y desgrifia Green y sefyllfa : " Pitt shared the belief in a social danger with Parliament, and with the nation at large. The Habeas Corpus Act was suspended, a bill against seditious assemblies restricted the

* Ato ef y cyfeiria Dafis Castell-hywell yn y llinell hon,—" Fel rhyw Dwrc mae Bwrc yn barco."

† Hen gastell a ddefnyddid fel carchar ac a ddinystriwyd gan y *mob* yn 1789.

liberty of public meetings, and a wider scope was given to the Statute of Treasons. Persecution after persecution was directed against the Press; the sermons of some Dissenting Ministers were indicted as seditious."

Yr oedd yr offeiriadaeth yn neillduol wedi ffyrnigo. Gwyddom mai "Church and King" *mob* yn benaf fu gyda'r gwaith o losgi a dinystrio tŷ Dr. Priestley, yn Birmingham,* ac yn gwasgar ei ddodrefn a'i bapyrau gwerthfawr ar hyd yr heolydd, gan orfodi iddo ef a'i wraig yn eu hen ddyddiau ffoi i'r Amerig er mwyn diogelwch. Yr oedd yspiwyr y Llywodraeth wedi treiddio i anghysbell-leoedd Cymru fach. Fe gofia'r darllenydd fod John Jones, Glangors, Iolo Morganwg, a T. Evans, yn wrthrychau drwgdybiaeth yr awdurdodau. Er gwaethaf yr ynfydrwydd a ddangoswyd gyda'r Chwyldroad yn Ffrainc yr oedd yr egwyddorion cychwynol yn aros ac yn cael cymeradwyaeth. Parheid i gyhoeddi athrawiaeth "Breiniau Dyn" oddiar ben aml i fwthyn tô gwellt yn Nghymru. Fel hyn oedd gobaith yn canu yn mynwes D. D., Castellhywel:

Caiff caethion, deillion o d'wyllwch,—olwg
Ar heulwen dyddanwch;
Daw dyddiau llawn dedwyddwch
Ar waelion llwydion y llwch.

(*I'w barhau*).

CARMARTHEN COLLEGE.

By Principal Evans, M.A.

(*Continued from the December Number, 1900*).

11. Thomas Lloyd (1785—89).

THOMAS LLOYD belongs to a family that has contributed many honourable names to the roll of Welsh Worthies, being

* Yn 1791 (gweler *Ymofynydd* 1881, p. 63).

nephew to David Lloyd, the well-known minister of Llwynrhydowen.[1] He was born at Coedlanau-fawr, in the parish of Llanwenog (Card.) in or about 1765, and after a good Grammar School training under Davis of Castell-hywel was admitted to the Academy at Rhydygorse, in the summer of 1782. The students at this period were in a state of chronic rebellion against the authorities, and two years later, as already stated, the Academy was removed to Swansea. Thomas Lloyd was one of several who did not return for the session 1784—85. There is no evidence that he had incurred the displeasure of the Board; but like his friend John Williams, the biographer of Belsham, he seems to have preferred proceeding to Hoxton, where, for one session, until the Academy was closed, he enjoyed the instruction of Dr. Kippis and others, on the foundation of the Coward Trust. After the summer of 1785, he appears at Swansea as a student of the Presbyterian Board; and, as the session advanced,

[1] The following table shews the principal ministerial connections.



Dr. Charles Lloyd, whose *Particulars* have been a useful check in the Swansea period, was at the Academy during 1784—8, and resided in Cardigansire during 1801—2 (two years). He was a man of marked ability, but his peculiar temperament—well described in *Evans's Midland Churches*, p. 126—unfitted him for pronouncing dispassionately on matters in which he was personally interested, and the writer has shrunk from reproducing his judgments where they do not assist in elucidating the course of events.

was appointed Assistant Tutor.[2] But his tenure of the office was of short duration. He must have already been suffering from incipient consumption, and in three years he passed away at his father's house at the early age of twenty-four. He was buried in Llanwenog Church-yard, on April 25th, 1789.[3]

Mr. Lloyd was regarded by his pupils with affection and esteem—no mean criterion of efficiency in a teacher—and has left behind him a reputation which would have done credit to older and more experienced men.[4] He is usually described as an Arian, but there are not wanting indications that he was in sympathy with the sentiments of Dr. Priestley.

(*To be continued*).

NYTH Y FRAN.

SAFLE GREFYDDOL Y FRENHINES.

Cydnabyddir yn gyffredin, os nad oedd y Frenhines yn fenyw o athrylith, ei bod yn feddianol ar fesur mawr o graffder a threiddgarwch meddyliol. Cadwai ei llygaid yn agored, ac yr oedd yn fyw i bob peth oedd a fyno ag hawddfyd ei phobl. Yr oedd yn ddiamheu yn fenyw grefyddol yn ngwir ystyr y gair, ac ni wyddai neb yn well am y rhan bwysig mae crefydd yn chwareu yn hanes cenedl. Wel, beth oedd ei hagwedd

---

[2] In March 1786. It is to be inferred from the statements of Dr. Charles Lloyd (p. 32) and Peter (*Autob.* p. 10) that he had acted as Classical and Mathematical Tutor from the beginning of the session,—apparently by private arrangement with Josiah Rees. But in the Minutes of the Board he is regarded as a student up to the time of his formal appointment. Dr. Thomas Rees, who describes him as assistant to Solomon Harries, is contradicted by Lloyd, who says that the latter had no assistant.

[3] *Parish Register.*

[4] The Rev. William Evans [1772—1847] of Tavistock, who studied at Swansea during 1788—92, gives the following account of him in *Mon. Rep.*, 1827, p. 848 :

"He was deeply enamoured of truth and literature, but above all exulted to contemplate the glory of the Homeric Muse, and the dramatic perfection of her offspring, the Greek tragedians. . . . . From his own example as well as his instructions, he was eminently qualified to inspire the breast of docile and ingenuous youth with enthusiastic love of learning and science, and with the admiration of all that is true, venerable and lovely. . . . . His personal appearance was lofty and commanding, his stature was tall, and his benign, majestic countenance indicated the youthful grace and dignity of his mind. In his public emotional addresses to the Deity, he was singularly impressive and solemn ; while from his emaciated frame he seemed on the eve of his departure from the earth, and in the prime of life to have attained to an extraordinary degree of honourable age."

See also *Lloyd's Particulars*, p. 35.

feddyliol at ddadblygiadau crefyddol y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg? O ran proffes, yr oedd wrth gwrs yn aelod o Eglwys Lloegr; a phan yn treulio yr haf yn Ysgotland mynychai Eglwys Crathie, un o eglwysi Presbyteraidd y sefydliad yn y wlad hono. Mae y ffaith hon ar ei phen ei hun, yn profi nad oedd ganddi yr un cydymdeimlad a'r blaid uchel-eglwysig yn Eglwys Lloegr. Nid yw Eglwys Sefydledig Ysgotland yn Esgobyddol; nid oes ganddi gysgod o olyniaeth Apostolaidd i ymbwyso arno; nid yw ei gweinidogion yn offeiriaid, ac ni ddefnyddiant Lyfr Gweddi Cyffredin. Mae'n eithaf gwybyddus fod uchel-eglwyswyr penboeth yn edrych yn wgus ar y Frenhines am eu hymddygiad yn cydaddoli a phobl nad ydynt, yn eu golwg hwy, ond schismaticiaid. Cwynent hefyd ei bod yn cynal bedyddiadau ei phlant a'i hwyrion, &c., mewn palasau, ac nid mewn eglwysi cysegredig. Mae'r hanesyn canlynol am dani wedi ymddangos yn y papyrau yn ddiweddar. Gofynai i un o offeiriaid yr Isle of Wight,—"A ydych chwi yn dyfod yn mla'n yn dda gyda'r Ymneillduwyr; bydd yn rhaid i chwi ddyfod yn mla'n gyda nhw yn y nefoedd."

Hefyd, nis gellir dweyd ei bod mewn cydymdeimlad neillduol a'r blaid Efengylaidd yn yr Eglwys, fel ei gelwir. Yr oedd y dylanwad mwyaf a gyffyrddodd a'i bywyd hi erioed, sef dylanwad ei gwr, y Tywysog Cydweddog, yn hollol eang a rhyddfrydig, ac yn gwbl wrthwynebol i'r yspryd cul ac anoddefgar sydd yn nodweddu y blaid Efengylaidd. Rhyw ddeugain mlynedd yn ol cyhoeddwyd yn y wlad hon, o dan nawdd y Frenhines, lyfr gan Almaenwr, o'r enw Zschokke, a elwid yn gyffredin yn "Lyfr Defosiwn y Frenhines." Daeth i fod yn boblogaidd iawn trwy'r wlad, a hyny yn eithaf tebyg, am fod y Frenhines yn ei hoffi mor fawr. Un o nodweddion amlwg y llyfr hwnw oedd absenoldeb yr athrawiaethau hyny a elwir trwy drais ar iaith yn Efengylaidd, sef cwymp ac anallu dyn, Iawn Ddirprwyol, cyfiawnhad trwy ffydd, cosp dragywyddol, &c. O dan arweiniad y llyfr hwn y dygodd i fyny ei phlant, ac yn ei chyfarwyddiadau i'w hathrawon dywedir y gosodai bwys neillduol na fyddent yn cael eu gosod i ddysgu Credo St. Athanasius, am ei bod yn condemnio y rhai na chredent ynddi i golledigaeth dragywyddol. Hefyd, mae'n ffaith fod ei chyfeillion mwyaf mynwesol fel gweinidogion crefydd, sef Deon Stanley, y Prif-athraw Tulloch, a Dr. Norman McLeod, yn nodedig o eang a rhyddfrydig, ac yn y cydymdeimlad dyfnaf a phob peth oedd yn oreu yn mywyd crefyddol eu hoes, ar wahan oddiwrth sect, eglwys a chredo. Gallwn anturio ar y casgliad ynte, nad oedd y Frenhines o ran ei syniadau crefyddol ddim yn mhell o safle Deon Stanley, ac mai'r pethau mawrion yn ei golwg hi, fel yn ngolwg pob dyn gwir grefyddol a goleuedig ydyw y dyledswyddau syml hyny ydynt yn codi oddiar gariad at Dduw, a chariad at ddyn, a'r rhai ydynt i gael eu cyflawni yn yspryd Iesu Grist.

"Dull y Byd Hwn," &c.

Sylwer ar y cyferbyniadau canlynol sydd yn dangos sut mae y dull—y ffasiwn grefyddol—wedi cyfnewid yn ystod y ganrif ddiweddaf. Yn 1791, llosgodd y *mob* dŷ, llyfrgell, ac offer gwyddorol Dr. Priestley, yn Birmingham, a gyrwyd ef o'r diwedd yn alltud i farw yn America. Yn 1874, codwyd cofgolofn ardderchog o fynor iddo yn y man mwyaf cyhoeddus yn yr un dref, ac mae ei lyfrau ar Hanes, &c., yn cael eu cymeradwyo i sylw myfyrwyr Prifysgol Rhydychen, gan eu hathrawon. Yn 1841, llosgwyd llyfr hereticaidd, J. A. Froude,—"*Nemesis of Faith*"—yn *Quadrangle* Coleg Exeter, Rhydychen, a chollodd ei *Fellowship*. Yn 1892, heb ei fod wedi newid ei olygiadau o gwbl, cafodd ei ddewis fel olynydd i Dr. Freeman, yn Broffeswr Hanes yn y Brifysgol.

Am flynyddau oddiar 1859, pan y cyhoeddodd ei "*Origin of Species*," Charles Darwin oedd un o'r dynion mwyaf anmhoblogaidd yn y wlad hon. Ymosodid arno o bob cyfeiriad; gwnaed ei ddamcaniaeth yn destun gwawd pob *bigot*, o Esgob Wilberforce i lawr hyd at y Jack mwyaf dinod mewn pwlpud, nas gallai hyd yn nod sillebu y gair *evolution*, heb son am wybod ei ystyr. Bu Darwin farw yn 1882; claddwyd ef yn Westminster Abbey, o dan fendith yr eglwys oedd unwaith wedi hyrddio ei melldithion yn ddiarbed ar ei ben, ac nid oes amheuaeth erbyn hyn yn meddyliau dynion cymhwys, nad yw ei ddamcaniaeth yn gorphwys ar sylfeini gwyddonol.

Frederick Temple, Prif-athraw Ysgol Rugby, oedd awdwr y blaenaf o'r "*Essays and Reviews*," ar Addysg y Byd, a gyhoeddwyd yn 1860. Bu y llyfr yn achlysur i un o'r cynhyrfiadau mwyaf ystormus fu erioed yn siglo, nid yn unig Eglwys Lloegr, ond holl gylchoedd crefyddol y wlad. Torodd y rhyferthwy yn neillduol ar ben y tri mwyaf enwog o'r ysgrifenwyr, sef Temple, Jowett, a Dr. Rowland Williams, y pryd hwnw o Lanbedr. Daeth Temple i wybod mor ddwfn oedd y chwerwder a'r elyniaeth a greodd y llyfr yn ei erbyn pan y gwnaeth Gladstone ef yn Esgob Exeter, yn 1869; ond erbyn 1885, pan y gwnaed ef yn Esgob Llundain, yr oedd yr ystorm wedi tawelu er fod ei ddarlithiau Bampton ar Wyddor a Chrefydd, yn 1884, yn dangos fod Temple yr un mor rhyddfrydig ag oedd o'r blaen. Mae yn awr y prif bersonoliaeth yn Eglwys Lloegr—yn Archesgob Canterbury.

Yn 1862, cyhoeddodd Dr. Colenso, Esgob Natal, y rhan gyntaf o'i waith ar y Pum Llyfr a llyfr Joshua; ac mewn canlyniad daeth ei enw i sefyll am y Diafol trwy'r wlad benbwygilydd. Condemniwyd y llyfr gan y ddau dŷ o Gonfocasiwn. Esgymunwyd yr awdwr gan ei gyd-esgob yn South Affrica; cauwyd pob pwlpud yn ei erbyn yn Mhrydain Fawr; ymosodwyd arno gyda melldith a rheg lle bynag y byddai offeiriaid a phregethwyr yn casglu at eu gilydd; a chofiwn yn dda fod pwyllgor Eisteddfod fawreddog Llanarth, Ceredigion yn 1862, wedi gwneud *stretch* i gynyg gwobr digon mawr am draethawd i dori ei ben *off* yn effeithiol. Erbyn heddyw addefir yn gyffredinol fod Colenso yn un o ddynion goreu ei amser, yn ddyngarwr a christion o'r iawn ryw; ei fod wedi gwneud gwasanaeth o'r gwerthfawrocaf i wir wybodaeth o'r Beibl. Saif ei enw yn anrhydeddus fel un o sylfaenwyr Beirniadaeth yr Hen Destament, (gwel llyfr Canon Cheyne ar y pwnc hwnw), ac erys ei goffadwriaeth yn fendigedig fel un a lafuriodd ac a ddioddefodd er ei gwneud yn bosibl i ysgolheigion i astudio'r Beibl heb gael eu gwawdio a'u herlid.

Rhown dro i America. Llai nag ugain mlynedd yn ol yr oedd yr "*Independent*," papyr wythnosol yn perthyn i'r Anibynwyr neu'r Cynulleidfaolwyr a gyhoeddir yn New York, yn eithafol yn ei wrthwynebiad i'r gwrthdystiad a wnaed yn Ngholeg Andover, a Bwrdd y Cenhadaethau, yn erbyn y syniad o ddamnedigaeth paganiaid. Yr wythuos o'r blaen yr oedd yr un papyr yn ffafriol i wneuthur cyfnewidiad yn yr hen syniadau am Grist, fel eu corffolir yn yr athrawiaeth o ddwy natur wahanedig yn yr un person. Wrth sylwi ar y gwrthwynebiad a ddangoswyd gan rai personau culfarn am fod Undodiaid wedi cymeryd rhan yn angladd Governor Wolcot mewn Eglwys Esgobyddol, dywed ei bod hi yn anhawdd iawn yn awr i ddosparthu dynion o dan yr hen wahaniaethau ac mae'n myned yn mlaen fel y canlyn—"Mae rhai a alwant eu hunain

yn Undodiaid ag mae eu golygiadau am y natur ddwyfol yn gwbl mor gywir yn ol y safonau uniongred a llawer o'r rhai a alwant eu hunain yn Drindodiaid. Mae y sylw sydd wedi ei dalu i'r athrawiaeth am Grist, dadfeiliad yr hen syniadau masnachol am yr Iawn, diflaniad yr athrawiaeth o anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau, amgyffrediad clirach o'r syniad am Dadolaeth Duw wedi bod yn effeithiol i osod llai o bwys ar Dduwdod hanfodol ein Harglwydd. Teimla llawer ei bod yn hawddach i gredu fod Iesu wedi ei lanw a Duw i'w lawn fesur dynol, a thrwy hyny wedi dyfod yn athraw ac yn arweinydd y byd." Terfyna trwy ddweyd fod nid ychydig o weinidogion yn yr eglwysi Efengylaidd ydynt, heb yn wybod iddynt yn Undodiaid. Maent tuhwnt i bob amheuaeth yn Gristionogion da a defnyddiol. Rhaid eu cydnabod fel y cyfryw lle bynag y maent. Byddai yn drosedd yn erbyn cariad Cristionogol i beidio eu cydnabod.

Deuwn yn ol i Gymru, ac yna terfynwn. Yn Nghymdeithasfa Llanfyllin yn 1833, pregethai y Parch. John Elias ar y geiriau,—"A ddygir y caffaeliad oddiar y cadarn," &c. Desgrifiai gyflwr ysprydol dyn ar ol y cwymp, a gallu y diafol ar y rhai sydd heb eu hail-eni, a bloeddiai allan wrth gyrhaedd ei *glimax*.—"Mae'r Diafol yn myned a'r byd yn ei gil-ddanedd tuag uffern." Ychydig amser yn ol ymddangosodd erthygl yn y "*Y Geninen*," yn gosod pwys ar y ffaith nad oedd uffern ddim yn llanw y fath le yn y pwlpud ag yn y dyddiau gynt. Mewn gwirionedd nid oedd son am dani. Yr oedd y pwnc mawr ag oedd yn faich cenhadwri hen bregethwyr fel John Elias wedi ei anghofio. Dywedai Gwilym Marles er ys pum-mlynedd-ar-hugain yn ol, nad oedd uffern y pryd hwnw ddim yn agos mor boethed ag oedd hi wedi bod; erbyn hyn mae hi wedi ei diffodd yn gyfangwbl, fel un o hen ffwrneisiau blast Aberdar a Merthyr, ac nid oes dim yn aros ond pentwr o adfeilion; ac mae ysgrifenydd yr erthygl yn gofyn mewn syndod, "B'le mae uffern wedi myn'd"? Rhaid i'r Diafol yn awr fyn'd a'i ysglyfaeth i fan arall llai cynefin iddo.—Y Fran.

ENILLION Y GANRIF.

Gan y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster.

I.—Cenhedloedd Newydd Ewrop.

Mae yn anmhosibl dweyd sut y bydd pobl yn mhen can' mlynedd eto yn edrych ar y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, am ba beth yn neilldnol y byddant yn ei hystyried yn deilwng o sylw, a'r fath gymeriad fyddant yn briodoli iddi. Meddylia rhai, yn awr, ei bod wedi bod yn enwog am ei gwyddor: eraill, am ei dyfeisiau a'i darganfyddiadau, ei dyngarwch, ei dysgeidiaeth a'i beirniadaeth; tra y dywed eraill mai un o'i phrif nodweddion yw ei hymdrech am ryddid. Yr anhawsder yw i gael gair cyfleus i gyfuno yr holl elfenau. Gellid awgrymu y gair cynyddol

(*progressive*); ond gall canrifoedd eraill hòni hawl i'r un nodwedd. Nid âf i chwilio am unryw air gwahaniaethol, ond ceisiaf osod i lawr rai nodiadau ar enillion y ganrif, a hyny, cofier, fel mae fy ngwybodaeth gyfyngedig yn fy ngalluogi.

Ac yn y lle cyntaf, gosodaf i lawr fel un o brif enillion y ganrif,

Yr ymdrech am Ryddid Cenhedlaethol yn Ewrop.

Un o symudiadau arweiniol y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yw adfywiad y teimlad cenhedlaethol. Hyny yw, mae pobloedd oeddynt wedi colli eu hanibyniaeth am ganrifoedd, ond wedi llwyddo i gadw eu nodweddion cenhedlaethol, wedi adenill eu hanibyniaeth, neu wedi cyfuno y darnau toredig yn nghyd yn un trefniant cenhedlaethol. Mae y teimlad hwn wedi dyfod yn gryfach nag erioed o'r blaen, ac nid oes eisiau myned yn mhellach na Chymru a'r Iwerddon i weled arwyddion o hono. Mae pobl o'r un gwehelyth yn awyddu i ffurfio eu hunain yn un genedl, ac i gael gwared ar lywodraeth estroniaid. Wrth ddarllen hanes Ewrop, nis gall dyn lai na sylwi fod y digwyddiad mawr hwnw a gymerodd le yn y bymthegfed ganrif ac a adnabyddir fel

Adenedigaeth (Renaissance)

neu adfywiad gwybodaeth, pan y dechreuodd pobl i ddysgu ac i ddarllen clasuron Groeg a Rhufain, ac felly i ryddhau eu hunain oddiwrth ormes duwinyddiaeth ysgolheigaidd yr Eglwys yn y Canoloesoedd—pan y daethant allan o'r tywyllwch hwnw i oleuni syniadau newydd, nis gallwn lai na sylwi, meddaf, fod yr adfywiad hwn fel math o fynydd-dir yn ffurfio llinell derfynol sydd yn rhanu Hanes Ewrop yn ddau, ac yn gwahanu Ewrop y Canoloesoedd oddiwrth Ewrop ddiweddar. Cyn yr adfywiad darllenwn lawer am ddau sefydliad mawr—

Yr Eglwys a'r Ymerodraeth,

a gweithrediadau y pabau a'r ymerawdwyr. Ar ol y flwyddyn 800 O.C., yr oedd yr ymerawdwyr i gyd yn Almaenwyr, a hwy oedd meistriaid yr hyn alwn ni yn awr yn Ffrainc, yr Almaen, Holland, Belgium, Awstria, a'r Eidal. Erbyn y flwyddyn 1000 O.C., yr oedd Ffrainc wedi ymffurfio yn deyrnas ar ei phen ei hun, a dechreuodd yr ymerodraeth a gallu yr ymerawdwr fyned yn llai. Yr oedd dynion yn y bymthegfed ganrif wedi dyfod i ddarllen hen ysgrifenwyr gwerinol Groeg a Rhufain, wedi gweled cymaint o anrhydedd yn cael ei dalu i rai oeddynt wedi gwrthwynebu a lladd gormeswyr, a chyffroid hwythau i wneud ymdrech yn erbyn pabau a thywysogion. Drylliwyd gallu yr ymerodraeth fel gallu y pab, er i'r teitl o ymerawdwr gael ei gadw gan rai canghenau o'r genedl Almaenaidd hyd ddechreuad y ganrif sydd wedi terfynu. Ond pan ddrylliwyd y gallu hwn, rhoddwyd cyfleusdra i wahanol deyrnasoedd i godi i fodolaeth.

Y cyntaf i ddyfod yn fawr a galluog oedd yr Yspaen. Erbyn y flwyddyn 1600 O.C. yr oedd wedi cyrhaedd uwchder ei gallu, ac ar ol hyny dadfeiliodd yn gyflym. Rhyw haner can' mlynedd cyn hyny, yr oedd yr Eidal wedi dadfeilio, ac wedi dyfod yn faes brwydr, lle yr oedd tywysogion Ewrop yn ymladd allan eu hymrysonau. Drylliwyd hi yn ddarnau gan Ffrainc a'r Yspaen; a phan y darfyddodd Yspaen i fod yn allu arweiniol, daeth Ffrainc i'r ffrynt, a chymerodd yr awenau yn ei llaw. Tua'r amser hwn (1609) y gwrthryfelodd yr Iseldiroedd (*Netherlands*) oddiwrth yr Yspaen o dan Gwilym Ddystaw (*William the Silent*), pan y ffurfiwyd gwladwriaeth newydd yn Ewrop. Yn y cyfamser, yr oedd gwahanol ganghenau yr hen ymerodraeth yn gwanhau y naill y llall trwy gweryla yn achos

Y Diwygiad Protestanaidd.

Darfu i heddwch Westphalia yn 1648

roddi terfyn i'r ymdrech hir, ac i osod y ddwy grefydd ar yr un tir o gyd-raddoldeb. Erbyn hyn yr oedd yr ymerodraeth wedi ei gwanhau yn ddirfawr, ac o braidd yr oedd yna unryw deimlad cenedlaethol yn cadw y rhanau wrth eu gilydd. Yn y ddeunawfed ganrif daeth pedair neu bump o deyrnasoedd pwysig i'r golwg yn Ewrop. Yr oedd Prwssia yn gystal ag Awstria yn dechreu teimlo eu nerth, a nodir y ganrif hono gan frwydrau mawrion rhwng Lloegr a Ffrainc, a rhwng Prwssia ac Awstria. Tua diwedd y ganrif cymerodd

Y Chwyldroad mawr yn Ffrainc

le a daflodd wyneb i waered yr hen drefn o bethau yno, ac a roddodd gychwyniad i syniadau gwleidyddol ydynt yn fyw heddyw. Yn nghynwrf a thryblith y chwyldroad daeth athrylith Napoleon i'r golwg, a bu yn yspryd aflonydd ar faes gwleidyddiaeth Ewrop hyd ei orchfygiad yn Waterloo yn 1815. Ar ol heddwch Vienna yn y flwyddyn hono, penderfynwyd ar safle yr Almaen, ac arosodd felly hyd 1870. Nid oedd ganddi mwyach nac ymerawdwr na brenin. Ar yr un adeg ffurfiwyd yr Iseldiroedd, cynwysedig o Belgium a Holland, yn un deyrnas. Ond nid oeddynt o'r un grefydd—un yn Gatholig a'r llall yn Brotestanaidd, ac ni chytunent yn dda a'u gilydd. Felly gwrthryfelodd Belgium yn 1830, a daeth yn y flwyddyn ganlynol yn deyrnas ar ei phen ei hun. Caniataodd Galluoedd Ewrop iddi ddewis ei ffurflywodraeth ei hun, ac mae'r etholaeth wedi ei gosod ar y sylfaen eangaf—pleidlais gyffredinol i bawb. Mae o ganlyniad yn un o'r llywodraethau mwyaf democrataidd yn Ewrop—i bob pwrpas yn werin-lywodraeth, ond yn lle llywydd etholedig, mae wedi dewis brenin o'r tuallan i'w gwlad ei hun a'r goron yn aros yn ei deulu. Mae y bobl yn grefyddol dros ben, ac yn ymlynwyr selog wrth yr Eglwys Rufeinig. Ond y peth rhyfedd yw fod Eglwys Belgium yn

Eglwys heb un Waddol.

Ganrif yn ol yr oedd yr Eglwys yno mewn meddiant o dair rhan o bedair o holl dir y wlad. Erbyn hyn nid oes ganddi un ran mewn cant o hono.

Dylanwad Napoleon.

Darfu i ymddygiad Napoleon yn gosod ei gyfeillion ac aelodau o'i dylwyth ei hun ar orseddau y gwledydd oedd ef wedi orchfygu, greu teimlad newydd yn Ewrop. Daeth pobl yn yr Almaen a'r Eidal i deimlo yn fwy nag erioed o'r blaen fod yr holl Almaenwyr yn perthyn y naill i'r llall, a'r holl Eidaliaid yn gydwladwyr, ac y dylent fod mewn undeb agosach â'u gilydd. Pan aeth Prwssia i ryfel ag Awstria yn 1866, cymerodd y gwahanol wladwriaethau Almaenaidd wahanol ochrau yn yr ymryson. Gorchfygodd Prwssia a chauodd Awstria allan o'r Almaen yn gyfangwbl, a ffurfiodd y Cyngrair Gogleddol gyda chyfansoddiad a Senedd yn cynrychioli y corff unedig. Yn 1870 dechreuodd y rhyfel rhwng Ffrainc a Prwssia, ac unodd yr holl wladwriaethau Almaenaidd yn y gogledd a'r Deheu i gynorthwyo : a'r canlyniad fu, pan oedd yr Almaenwyr yn gwarchae ar Paris ar ddiwedd y rhyfel, cynygiwyd y teitl o Ymerawdwr yr Almaen i Frenin Prwssia gan dywysogion a dinasoedd rhyddion yr holl wlad. Felly daeth i fodolaeth

Ymerodraeth yr Almaen

Cymerodd yr un peth le yn yr Eidal yn 1861 pan y gwnaed Victor Emmanuel yn Frenin Eidal Unedig trwy ymdrechion a dylanwad Mazzini Garibaldi, Count Cavour, ac eraill. Mae yr un yspryd wedi bod yn gweithio yn y gwahanol diriogaethau oeddynt yn gwneud i fyny ymerodraeth y Twrc ar ddechreu'r ganrif. Enillodd Servia ei hanibyniaeth yn 1815, Groeg yn 1827, a chyhoeddwyd anibyniaeth Roumania fel teyrnas yn

derfynol yn 1881, fel nad yw Twrci ond haner y maintioli erbyn hyn ag y bu hi unwaith. Mae yr un ymdrech yn myned yn mlaen yn mhlith Czechiaid Bohemia, Poliaid Galicia, ac eithaf tebyg y bydd Hungary wedi ei gwahanu oddiwrth Awstria cyn bo'r ganrif hon wedi myned yn hen iawn. Yr ysprydiaeth yma ydym ni yn clywed adsain o hono yn yr awydd am hunanreolaeth yn yr Iwerddon, a chodiad y teimlad cenedlaethol yn Nghymru sydd wedi bod yn un o nodweddion arweiniol bywyd gwleiddyddol Ewrop yn ystod y ganrif ddiweddaf; ac mae yn anhawdd dweyd yn mha le y terfyna. Gadewch i ni oll obeithio yn wyneb llawer ystyriaeth i'r gwrthwyneb y bydd i genedloedd Ewrop yn ystod y ganrif hon ymestyn i fyny yn raddol at nod uchel Cristionogaeth, ac ymorphwys mewn llonyddwch a boddlonrwydd, fel y byddo heddwch yn taenu ei hadenydd dros y gwledydd, a thangnefedd yn teyrnasu ar y ddaear ac ewyllys da yn mhlith dynion.

FRANCIS,—Y SANT O ASSISI.

Gan E. Gwilym Evans, B.A., Rhydychen.

Pa ddyn, wrth syllu yn mrig yr hwyr ar belydrau olaf haul machludol, na theimla ryw awel yn dyfod ato o'r gorllewin euraidd, awel dyner, bell, nefolaidd fel cenad i'w enaid o'r byd anwel edig, gan greu yn ei fynwes awydd am sancteiddrwydd ac anfarwoldeb? Ond drachefn mae lleni'r nos yn disgyn, "gerddi a gwaunydd gyll eu gwawr," prudd ddistawrwydd y nos a reola'r cyfan; rhaid i'r dyn bellach droi ei gamrau tua'i gartref. Mae'r breuddwyd melus drosodd. Tebyg oedd ei deimlad cyntaf i deimlad morwynion yr allor dan eu hadduned o ddiweirdeb. Yn achlysurol teimlant eu calonau yn curo'n hiraethlon am enyd fer; ond syrthia lleithder oerllyd y gwyryfdy arnynt drachefn. Dyma ydyw eu hunig brofiad o'r cariad hwnw sydd gryfach nac angau.

Ai nid darlun ydyw'r uchod o hanes crefyddol dynolryw? Oni wyddom am y llu eneidiau byw yn ein byd y rhai a brofant felusder gweledigaeth Mynydd y Gweddnewidiad ond yn anfynych iawn? Pa mor ychydig o honom sydd wedi treulio awr *gyfan* erioed yn nghwmpeini'r Hollalluog? Er hyny, cysgu'n unig ynom mae'r enaid; *cloroform* gofalon y byd a'n hanalluoga i ganfod y cariad Dwyfol yn wastadol yn ngwres y dydd yn ogystal ac ar adegau anaml unigrwydd yr hwyrddydd. Rhaid cael prophwydi i symud ymaith y cysgadrwydd marwol hwn, nid offeiriad neu bregethwr i ogleisio'ch clustiau a geiriau melus, didramgwydd, difater; ond proffwyd a gyhoedda'n eglur, ac a argyhoedda yn ddiofn brif bechodau ei oes. Gorchuddir Cymru heddyw â phregethwyr ac offeiriaid, ond i ba blwyf yr awn i gael gafael mewn prophwyd? Mae eisiau prophwydi arnom. Credaf hefyd na fuasai prophwyd yn caniatau fel ni, bregethwyr, y twyll-fasnachwr i eistedd ar uchel-sedd yn eglwys Crist. Fe'n dysgai nad ydyw gwerthu dŵr yn lle llaeth yn hollol gydweddol ac yspryd prophwydoliaeth, ac mai gwaith anhawdd i'r Hollalluog Ei Hun fydd darganfod lle yn Ei nefoedd bur i'r sawl a

wertho o'i wirfodd i'w gymydog geffyl a nam arno fel ceffyl *sound*, er fod y gwerthwr efallai yn gyflawn aelod yn ei eglwys ac yn cyfranu'n helaeth at y weinidogaeth.

Gwaith dewisedig prophwyd yn Nghymru fyddai pregethu yn galed yn erbyn y fath sarhad ar grefydd yr Arglwydd Iesu. Dyma, yn yr Eidal, oedd gwaith bywyd St. Francis. Symudwyd ymaith gysgadrwydd ysprydol ei wlad, a dihunwyd y bobl gan y Sant. Drwy ei fywyd a'i efengyl apeliodd yn ffyddiog at galonau ei gyd-ddynion, a rhyfedd oedd y canlyniad. Aeth Francis a'i gydweithwyr oddiamgylch gyda llawenydd mawr—y Brodyr Llawen y gelwid hwy—gan bregethu yn y caeau, ar yr heolydd, ac yn y pentrefydd. Nid pregethwr dydd Sul ydoedd St. Francis, ac ni ddysgwyliai i'w wrandawyr newid eu dillad gwaith cyn beiddio agor eu clustiau i egwyddorion Teyrnas nefoedd. Fel ei Feistr ychydig gysgai Francis, a phan y cysgai nid ar wely plu' nac ar wely gwellt ychwaith y gorweddai ond ar y dawlod wair, ar y gwellt yn yr ysgubor, ar lawr oer yr ysbytty, yn mhlith y gwahanglwyfus, neu odditan borth digysgod rhyw eglwys. Yn droednoeth, yn hollol amddifad o arian, a bron yn amddifad o ddillad, aeth Francis a'i gyfeillion o fan i fan dan ganu. Gorfoledd nid tristwch, gwyneb llon nid gwyneb hir a sur, a ddygai Efengyl yr Iesu iddynt. Cyd-lawenychodd y bobl 'fach' a hwynt, ond edrychai Eglwys Rhufain arnynt gyda dirmyg a gwawd. 'Roeddynt yn rhy dlawd i fod yn grefyddol! 'Roeddynt yn rhy debyg i Iesu Grist i fod yn Gristionogion!

Gwyrthiol bron oedd llwyddiant Francis. Y tlawd a edrychasent arno fel eu cyfaill, eu brawd, eu harwr, ie eu dialydd. Llef o'r galon oedd ei eiriau tanllyd, tebyg i leferydd prophwydi Israel gynt. 'Roedd trigolion yr Eidal wedi hir flino ar bregethau dysgedig, athrawiaethol, sychlyd yr offeiriaid Pabaidd; ond i Francis yn dysgu heddwch, gonestrwydd, a phurdeb rhoddent wrandawiad parod. Darllened Undodiaeth ei hanes gorphenol a'i thynged ddyfodol yn hyn. Yn y galon, nid yn yr ymenydd y gorphwysa elfenau y bywyd tragwyddol. Nid o ben ond o galon Iesu Grist y tarddodd Cristionogaeth. Ai nid i galonau a theimladau crefyddol dynion ynte y dylasem gludo ein cenadwri o gariad a maddeuant y Duw byw? Canfyddodd Francis bwysigrwydd y gwirionedd hwn, canys fel y Pen-Athraw gwyddai y Sant pa beth oedd mewn dyn. Pregethai ef grefydd resymol yn wir, ond nid rheswm ydoedd ei ffynonell. Rhesymol *ffurf* yn unig oedd i'w grefydd ond nid rheswm oedd wrth ei gwraidd. Ni ymresymai Francis a phechaduriaid, ond fe'u carai â chariad maddeuol. Ymddangosa nerth ei gariad yn yr hanesyn canlynol:

"Tra yn trigo gyda'i frodyr yn anialwch Borgo, ymwelodd tri lleidr enwog a phreswylfod Francis. Yn absenoldeb y Sant gofynodd un o'r lladron am rywbeth i fwyta. Atebodd un o'r Brodyr, "Lladron, ysbeilwyr a llofruddwyr ydych, yn ofni na Duw na dyn; ewch oddiyma ac na ddychwelwch byth mwy." Yn llawn cynddaredd aethant ymaith. Cyn machlud haul dychwelodd St. Francis. Yr oedd ganddo gwded o fara a photelaid o win, rhodd ryw gyfaill caredig. Pan y clywodd ystori'r lladron, ceryddodd Francis y Brawd am ei greulondeb tuag atynt. Gorchymynodd y Sant iddo gymeryd y bara a'r gwin ar ei gefn, i chwilio am y lladron dros fryn a mynydd, ac wedi eu cael i ofyn ar ei liniau am faddeuant oddiwrthynt, ac i roddi y bara a'r gwin iddynt. Gwnaeth y Brawd arch ei feistr, a dychwelodd y lladron gydag ef at Francis yr hwn a gyhoeddodd faddeuant Duw iddynt. Ymunasant a'r frawdoliaeth fel dysgyblion ffyddlon i Francis. Nid carchardy, nid caethiwed unig, nid bara a dŵr a dry y drwg-weithredwr yn Gristion ond gweledigaeth eglur o gymeriad cariadlawn y Duw Dad yn llewyrchu yn mywyd au ei blant a'i addolant Ef mewn yspryd a gwirionedd.

Nid efengyl i'w phregethu yn unig, ynte, oedd gan Francis, ond Efengyl i'w harfer hefyd, ac efe a'i harferodd i'r eithaf. Hoff waith y sant a'i frodyr oedd mynychu ysbytai y gwahanglwyfus,—cartrefi alltudion cymdeithas. Dengys yr hanesyn canlynol y modd y byddai Francis yn gweithio yn y cylch yma. Oherwydd ymddygiad anarferol o gas a chableddus ar ran un gwahanglwyfus penderfynwyd ei droi allan o'r ysbyty i drengu yn y diffaethwch. Tybient fod diafol yn y truan. Wedi clywed hyn brysiodd Francis ato, a dywedodd, "Tangnefedd Duw a fo gyda thi, fy mrawd anwyl.' "Pa dangnefedd,' meddai'r gwahanglwyfus "a rydd Duw i mi? Mae wedi troi fy nghorff iach yn dalp o ddrewdod a llygredigaeth. Arteithir fi a phoenau nos a dydd ac nid oes a'm cara." "Oes," meddai Francis, "cerir di genyf fi, a mi a wnaf drosot yr hyn a fynot." "Golch fi, ynte, o'm pen i'm traed, canys ffiaidd ydwyf," meddai'r claf. Wedi twymo dwfr, ac wedi ei berarogli a llysiau er mwyn symud ymaith ddrygsawr y clwyfau, golchodd y sant y doluriau er mwyn esmwythad y claf. Dywedir wrthym i'r diafol fyned allan o'r dyn cyn i Francis orphen ei olchi. Hawdd ydyw credu hyn am nad ydyw'r diafol yn ofni dim yn fwy na dwfr glân a chariad brawdol. Pa fodd bynag daeth ysbryd newydd o ostyngeiddrwydd ac amynedd i enaid dyn ag oedd gynt yn gablwr Duw a dyn. Ai nid wrth weithredoedd cyffelyb i hyn y gwybyddir mai dysgyblion i Iesu Grist ydym? Ei syniad aruchel am ddyn fel dyn a alluogodd Francis i gyflawni yn enw Crist y fath ddyledswyddau ymddangosiadol wrthun. Mynych y dywedodd am amryw bersonau pechadurus :

"Heddyw plentyn diafol yw
Fory mab anfarwol Duw."

O! na ba'i hyn yn gredo ymarferol yr ugeinfed ganrif!

(*I'w barhau*).

COLOFN Y PLANT.

ARWYDDAIR.—"*Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni.*"

Yr wyf yn bwriadu parhau hanesion mebyd dynion enwog eto. Gobeithio fod yr hanesion byr a gawsoch am Theodore Parker a Iolo Morganwg yn eich boddio. Mae genyf amryw y bwriadaf ddwyn i'ch sylw yn fuan, megys Robert Owen, Thomas Stephens, John Penry,—yr oll yn Gymry. Ond y tro hwn, er mwyn amrywiaeth, rhoddaf y 'straeon a ganlyn. Mae yn mhob un o honynt wersi pwysig. Gadawaf i chwi fydd yn eu darllen i chwilio allan beth ydynt.

1. *Ffyddlawn hyd angeu.*

Adroddir yr hanesyn canlynol gan un fu'n byw am flynyddau yn mhlith

yr Indiaid. Ar derfyn cyfarfod dirwestol un noson daeth un o'r Indiaid ieuainc yn mlaen i gymeryd yr ardystiad i lwyrymwrthod a'r ddiod a'r myglys. Yr oeddynt oll wedi bod hyd hyny yn anfoesol iawn, ac ni roddid fawr o ymddiriedaeth yn eu haddewid i ddiwygio. Ar ol hyn, cafodd un o honynt waith gyda chwmni o fobl wynion oeddynt yn cludo coed ar hyd yr afon Alleghany. Yr oedd yr oll o'r cwmni yn hynod hoff o'r ddiod, ac yn enwog am eu bywyd anuwiol. Sylwasant yn fuan nad oedd yr Indiad ieuanc yn cyffwrdd a'r ddiod, a dechreuasant ei wawdio, a'i demtio, a'i gamdrin yn mhob modd, ond yr oll i ddim dyben. Pan, un dydd, y gwrthodod yn bendant gyffwrdd a gwydraid o *whisky* a gynygiwyd iddo, gwthiwyd ef gan un o honynt i'r afon. I'w erfyniadau am ganiatad i ddod i fyny o'r dwfr, yr unig ateb roddent iddo oedd, y celai ddod i fyny, os addawai yfed y *whisky* ar ol hyny; "Nis gallaf dori fy adduned" oedd ei ateb penderfynol yntau; ac ar hyn gwthiwyd ef yn mdellach i'r dwfr, a suddodd yr Indiad ieuanc i beidio codi mwy, ac felly dioddefodd farwolaeth merthyr dros y gwirionedd.

---

2. *Rhodd dydd pen blwydd.*

Un dydd yr oedd dau fachgen bach yn ofidus iawn. Dydd pen blwydd eu nain ydoedd; ac ar y dydd hwn dygai pob un o'i pherthynasau ryw rodd iddi. Ond nid oedd gan y ddau fachgen bach ddim i roddi iddi, ac nid oedd ganddynt ychwaith arian i brynu rhodd, a hyn oedd yn eu gwneud mor ofidus. "Fe liciwn pe gallwn roi rhwbeth iddi," meddai un o honynt, "ma hi bob amser yn dda i fi." "Hoffwn ine hefyd," atebai'r llall, "nid ôs y fath nain a hi yn y byd"; "ond ni welaf beth allwn ni neud," meddai'r cyntaf eto; "Pe bawn i heb golli fy *marbles* mi rown i rai o honyn nhw iddi." Ar ol hyn buont yn ddystaw am ychydig amser fel pe yn ceisio dyfeisio rhyw ffordd i ddod allan o'r anhawsder. Yn mhen tipyn dywedodd y bachgen cyntaf eto, "Mi weda i beth allwn ni neud. Ma nain wedi cael llwyth o gôd adre heddy, a ma hi heb eu cario nhw fewn eto. Os na allwn ni roi dim gallwn gario'r côd i fewn a'u gosod nhw ar benau'u gilydd." Cydunodd y llall yn awyddus, ac at y gwaith yr aethant o ddifrif. Ar ol gorphen y cwbl galwasant eu nain allan, a dywedasant, "Nain, dyma'n rhodd pen blwydd ni i chi. Nid oes genon ni ddim arall i roi." "Fy mhlant anwyl," atebodd hithau, "ni allech ddwyn i mi un rhodd yn fwy wrth fy modd na hon; ac ni allech gael un ffordd well i ddangos eich bod yn fy ngharu," a chusanodd y ddau. Ac aethant hwythau ymaith yn falch eu bod wedi gwneud rhywbeth i wneud dydd pen blwydd eu nain yn fwy dedwydd.

---

3. *Esau a Jacob.*

Yr ydych lawer gwaith wedi clywed yr enwau Abraham, Isaac a Jacob. Yn mha ran o'r Beibl y ceir eu hanes? Ni ddywedaf wrthych yn mha le, ond gadawaf hyny i chwi i'w chwilio allan. Y tro hwn adroddaf y stori a ganlyn am un o honynt—Jacob. Mab i Isaac oedd Jacob, ac yr oedd iddo hefyd frawd, henach nag ef, o'r enw Esau. O'r ddau, Esau oedd hoffusaf gan Isaac, a Jacob gan ei fam, Rebeccah. Yr oedd y ddau hefyd yn hollol wahanol i'w gilydd. Bachgen didwyll, syml, calon-ysgafn, hoff o ddifyrwch, anlwcus, oedd Esau, a threuliai lawer o'i amser allan yn y meusydd yn hela, tra yr oedd Jacob, ar y tu arall, hytrach yn llwfr, tawel, agored i arfer twyll, a hunan-geisiol. Pan oedd Isaac yn hen iawn, a'i olygon wedi pallu, ceisiodd gan Esau i fyned allan i'r maes i "hela helfa," er gwneyd iddo flasusfwyd o'r fath a garai, ac addawodd roi iddo ei fendith pan y dychwelai. Yr oedd yn

arferiad y pryd hyny i'r tad, cyn ei farw, i roi ei fendith i'w fab hynaf, a mawr brisid y cyfryw fendith. Clywodd Rebeccah yr hyn a ddywedodd Isaac wrth Esau, ac mor fuan ag yr ymadawodd Esau archodd i Jacob i fyned i'r praidd, a chyrchu dau fŷn gafr, er iddi hi wneyd y blasusfwyd, ac anfon Jacob ag ef i Isaac, er mwyn i Jacob gael y fendith oedd yn ddyledus i Esau. A llwyddasant yn eu twyll, a derbyniodd Jacob y fendith. Pan y dychwelodd Esau, ac y deallodd beth oedd wedi dygwydd tra fu allan, cyffrodd yn ddirfawr at ei frawd oherwydd y tro gwael a wnaeth ag ef; a gorfu i Jacob ddianc o'i gartref rhag ofn y lleddid ef gan Esau. Ni chyfarfuasant am flynyddau ar ol hyn. O'r diwedd anfonodd Jacob genad at Esau i ofyn ei ffafr, a chydsyniodd Esau i fyned i gyfarfod ag ef. Ofnai Jacob gwrdd ag Esau gan na wyddai pa fodd yr ymddygai Esau tuag ato. Ond yr oedd Esau wedi maddeu'r cwbl erbyn hyn, oherwydd dyma fel y dywed yr hanesydd y cyfarfuasant: "Ac Esau a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd ef: a hwy a wylasant." Gwnaeth Jacob dro gwael ag Esau. Ond y mae y modd yr ad-dalwyd ef gan Esau yn deilwng o edmygedd.

Cystadleuaeth y Chwedlau.

Daeth pum chwedl i law. Drwg genyf nad oes un o honynt yn hollol wrth fy modd,—rhai yn anaddas i "Golofn y Plant," eraill yn rhy adnabyddus. Y goreu yw'r un a anfonwyd gan "Ieuan," ond mae argraff ar fy meddwl fy mod wedi ei darllen lawer gwaith o'r blaen. Anfoned "Ieuan" ei enw, a chaiff yntau wobr.

O.N.—Dymunaf grybwyll mai colofn i'r plant yw hon, ac *mai hwy sydd i gystadlu.* Hefyd, defnyddied pob un ffugenw chwaethus.

Y Gofyniadau am Mawrth.

(1) At ba amcanion y defnyddid y Synagog yn amser Iesu Grist?

(2) Pwy oedd brenin olaf Judah?

(3) Gan ba genhedloedd y cedwir gwahanol ddyddiau'r wythnos fel y cedwir y Sul genym ni?

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i'r *Parch. D. Evans, Cribyn, Llanybyther.*

Y GYMANFA GERDDOROL.

Dydd Sul, y 3ydd o Chwefror, ymgynullodd Pwyllgor y Gymanfa, i ystyried ymddiswyddiad Mr. Eiddil Jones. Wedi penderfynu derbyn y cyfryw, ac ar ol cryn lawer o siarad, dewiswyd arweinydd newydd, yn mherson Mr. E. Gwilym Evans, B.A., Rhydychen, a diameu fod y dewisiad wedi synu y mwyafrif o'r cantorion, yn ogystal ag aelodau y pwyllgor. Nid am fod Mr. Evans yn anheilwng o'r swydd. O! nage, ond am nad oedd neb wedi meddwl am dano cyn i gyfeillion o'r Cribyn grybwyll ei enw.

Fel un sydd wedi cael adnabyddiaeth lwyr o alluoedd Mr. Evans fel cerddor, yr wyf yn berffaith sicr, er nad ydyw wedi treulio prentisiaeth faith fel blaenor y gân yn un o'n

capelau, ei fod yn feddianol ar gymhwysderau arbenig i wneyd arweinydd llwyddianus, sef gwybodaeth gerddorol, clust craffus, hunan-feddiant o flaen torf, bywiogrwydd ac ymroddiad, yn cael eu cryfhau gan sel dros Undodiaeth.

Gwyddom hefyd ei fod yn ddadganwr effeithiol, yn adroddwr rhagorol, wedi cael y fantais o *Voice Training* o dan athrawon cynefin a'r gangen hon o wybodaeth, ac wedi gweled a chlywed rhai o gantorion ac arweinyddion goreu y byd. Felly, gall fod, a chredaf y bydd, o les dirfawr i ni fabanod cerddorol Ceredigion.

Gan hyny awn ati o ddifrif, gantorion. Cofiwn mai yn Aberystwyth y cynhelir y gymanfa. Gwnawn ein goreu bob yr un, a mynwn gael canu teilwng o'r enw, a theilwng o wrthrych ein mawl. Y ffordd i ni wneyd byny ydyw, dysgu yr emynau ar ein cof, mynychu'r ysgol gân yn gyson, a thalu sylw dyladwy i'n harweinyddion lleol yn awr, ac i'r arweinydd cyffredinol ddydd y Gymanfa.

Cofiwn am *Rehearsal* y 24ain o Fawrth a bydded i'r brodyr anfon ataf yn ddioed am gopiau o'r Anthemau os nad oes ganddynt ddigon wrth law.

G. T. (*Yr Ysgrifenydd*).

At Arweinyddion a Chantorion Eglwysi Undodaidd Sir Aberteifi.

Anwyl Gyfeillion,

Anturiasoch i alw i'r adwy gerddorol un bychan ei allu a llai ei hunan-hyder. Gorphwysed arnoch yn gyfangwbl y cyfrifoldeb. Gwrthod nis gallwn, am fod yr amgylchiadau yn arbenig (*peculiar*). Ond wedi cydsynio a'ch cais unfrydol, a gaf fi yn awr ymddibynu ar eich cydymdeimlad ymarferol er sicrhau rhyw fesur o lwyddiant ar y 10fed o Fehefin yn Aberystwyth? Heboch chwi nis gallaf wneuthur dim, a gwyddoch trwy brofiad mai ysgol gân dda a gonest ydyw unig sail gobaith am Gymanfa Gerddorol lewyrchus. Appeliaf ynte atoch am eich cydweithrediad. Cofiwch am oedran, diffyg profiad, a phryder yr arweinydd; cofiwch hefyd am yr angenrheidrwydd o gadw yn ddifrycheulyd gymeriad uchel canu Undodaidd Ceredigion yn y gorphenol.

Gwilym Evans.

GOHEBIAETH.

MWY O DREFN YN EISIAU.

Mri. Gol.,

Rheolau yw hanfod llwyddiant pob cymdeithas. Nis gellir dysgwyl trefnusrwydd a nerth hebddynt. Dylid mabwysiadu amodau aelodaeth yn Eglwys Dduw—y gymdeithas oreu. Yr ydym ni fel enwad wedi bod yn dra esgeulus yn y cyfeiriad hwn. Lled dybiwn fod ein rhyddid yn myned yn ben-rhyddid, gydag ychydig eithriadau. Mae ein heglwysi yn amddifad o amodau pwrpasol ac ysgrifenedig. Meddwn arferiadau traddodiadol,—mor ddirym ag efydd yn seinio neu symbal yn tincian. Oblegyd, yn ol ein dullwedd presenol nis gellir gwrthod aelodaeth i'r adyn penaf, a thrwy hyny, i'w goroni a hawl i bleidleisio, &c. Cydnabyddwn yr angenrheidrwydd i gadw drws agored i bawb i fynychu ein gwahanol oedfaon, ond nid i roddi hawlfraint

aelodaeth i bob math o gymeriadau. Cynygiaf yr amodau canlynol i'ch ystyriaeth : (1) Y dysgwylir i'r aelod deimlo dyddordeb yn yr eglwys, a gwerthfawrogi holl amcanion dwyfol yr eglwys, yn ol ei allu ; (2) Parodrwydd i helpu'r achos (*a*) trwy dan-ysgrifio, a (*b*) thrwy weithgarwch ; (3) Y dysgwylir iddo fyw yn deilwng o'r gymdeithas grefyddol.—T. J. J.

CONGL YR AWEN.

"J. H., Aberdar." Y mae bechgyn y Gongl yn honi fod gwall neu ddau yn eich englynion, ac wedi mynu eu cyfnewid. Dywedant nad oes cynghanedd yn y llinell—

" Tynai fy ngallu allan,"
Ond ei bod yn iawn fel hyn—
" Fy nerth diball aeth allan."

"Dewi Glan Cerdin." Y mae rhai o'ch englynion yn wir dda, ac yn ein hadgofio o rai o hen brydyddion pert y dyddiau gynt. Y mae'r *cyrch* yn colli weithiau, ac yn tueddu i fynd yn *shipris* arnoch. Y mae'r englyn olaf yn rhagorol, ac er mwyn osgoi *censorship* y Golygwyr eraill caiff ei argraffu yn mysg ein nodiadau ein hunain—

I'R YMOFYNYDD.

Hir flwyddi, mawr fo'i lwyddiant,—
a'i daith
A fo'n deg ddisiomiant ;
A'i glod ef ar hyglyw dant—oedd
ar goedd—
Geneuau filoedd a gano'i foliant.

"Mynydd Bach." Penillion cryfion, awenyddgar. Diolch yn fawr am danynt. Gwnawn ein goreu iddynt gael ymddangos yn ngholofnau rhifyn Mawrth.

S.

DYDD GWYL DEWI.

Wyl Ddewi fwyn ! rhyw gadwyn gu
Wyt ti, a'n deil wrth oesau fu ;
Adgofion fyrdd—rhai'n lleddf, rhai'n
llon—
Yw hoff ddolenau'r gadwyn hon.
Er treigliad amser—hirfaith hynt—
Drwy'th gyfrwng di daw Cymru gynt
Yn fyw yn ol i feddwl plant
Y Gymru Sydd ar ddydd ein Sant.

Wyl Ddewi fwyn ! hwyl dda i fardd
Wrth dremio 'nol i'r fan lle tardd
Y ffrwd wladgarol heddyw sydd
Yn llifo'n gref dros Gymru rydd.
O'r ffynon lân, risialaidd, glir,
Agorodd Dewi yn ein tir,
Dylifa rhin fel gloew nant
I Gymru Sydd, ar ddydd ein Sant.

Wyl Ddewi fwyn! gwnei ddwyn o ddu
Briddellau'r glyn ein harwr cu ;
Daw yspryd Dewi'n ol i'n mysg
Yn llewyrch llwybrau moes a dysg :
Mae'r llusern fâd gyneuodd ef
O hyd yn ngrym ei golau'n gref
Er rhedfa blwyddi—fil tri chant—
Yn Nghymru Sydd, ar ddydd ein Sant.

MYNYDD BACH.

GLAN YR AFON.

Cefais am ddeufis cyfan—hen an-
Influenza aflan ; [sawdd
Fy nerth diball aeth allan,
Onid ês yn hynod wan.

'Rwy'n well gryn lawer bellach—ond
Nid ytwyf yn holliach ; [eto
Mwyned byw am enyd bach,
O gellir byw yn gallach.

JENKIN HOWELL,
Victoria Place, Aberdar, Rhag. 1900.

B'LE MAE'R NEFOEDD?

Yn mha le y mae cartref olaf dyn? Dyma gwestiwn sydd wedi cael ei ofyn yn mhob oes, ond pwy all roi ateb? A ydyw yn nyfnderoedd oer a thywyll y gwagle diderfyn? Ai yn un o'r cyrff sydd i'w gweled yn gwreichioni o ddyfnderau gofod? Ai yn un o'r bydoedd sydd mor bell fel y mae goleuni, yr hwn sydd yn teithio tua phedwar ugain o filoedd o filldiroedd mewn eiliad, wedi bod flynyddoedd lawer ar ei daith yn croesi y gagendor mawr sydd rhyngddynt a'n cartref ni ar y ddaear? A ydyw yn y gwagle anherfynol, y tu hwnt i holl heuliau Duw sydd yn disgleirio yn y nefoedd ar noson dywyll gauaf? Neu a ydyw yn wir agos, o fewn cwmpas awyrgylch y ddaear? "Nesaodd teyrnas nefoedd." Y mae teyrnas Dduw wrth law. Credaf fod hyn yn wir, pa un ai esboniad llythyrenol neu ffigyrol roddwn i'r geiriau. Y mae teyrnas Dduw yn agos, ac y mae yr agoriad iddi yn meddiant pob dyn—yn ei enaid ei hun. Daeth Crist i'n hysbysu o'r ffaith, ac i ddangos y ffordd i fyned i mewn iddi. Ond ein pwnc yw, "Y wlad sydd yn harddach na'r haul," lle y mae eneidiau anfarwol yn byw ar ol myned allan o'r babell o glai—y wlad tu hwnt i'r afon, yr hon sydd a'i gogoniant yn fwy na ddaeth i glywedigaeth clust, na gweledigaeth llygad, na dychymygiaeth dyn erioed. A ydyw yn mhell, neu a ydyw yn agos? Credaf fod y "tir dymunol, hyfryd" yn agos, ac yn ein cylchynu yn mhob man. Y mae Duw yn caru Ei blant, ac y mae Ei blant yn caru y rhai maent yn adael ar ol yn mywyd y corff. Ac os yw yn bosibl iddynt, credaf eu bod yn aros yn agos i'r ddaear oeddynt yn garu, a lle y mae eu hanwyliaid eto yn trigo. O fewn awyrgylch y ddaear y mae digon o le i'r holl fyrddiynau bodau fu erioed yn byw ar ei gwyneb. A phwy all wadu nad yw trigfanau ty ein Tad, lle y mae ysprydion y rhai a'n rhagflaenasant i fyd yr yspryd, yn mhlith bryniau a dyffrynoedd ein hen ddaear. Y mae tystiolaeth miloedd o bobl pan ar ymadael yn myned yn mhell i brofi fod eu hanwyliaid yn aros am danynt, ac yn eu croesawu i'r cartref newydd. Pa reswm sydd genym dros gredu fod y cartref newydd yn mhell? Y mae addysg ddiweddaraf gwyddor ar fater ac yni, yn nghyd a thystiolaeth y "*Psychical Research Society*," yn wir, yn gwneud hyn nid yn unig yn bosibl ond yn debygol. Ai nid ymweliadau o'r byd ysprydol, ac agos hwn, oedd ymddangosiadau Iesu ar ol ei adgyfodiad? Pe bai ein llygaid ysprydol wedi eu hagor trwy gymundeb a Christ, fel yr oedd llygaid y dysgyblion wedi eu hagor, ai ni chaem ninau weledigaethau o'r byd ysbrydol? Sonir am y nefoedd fel lle *uwchben*, ond cofier pan fyddom yn myned o'r tu allan i ddylanwad atyniadol y ddaear nad oes nac i fyny nac i waered. Ein "i fyny" ni yn y wlad hon yw "i waered" y gwrthdraedolion, Zealand Newydd. Paham y meddyliwn ei fod yn anmhosibl i eneidiau y rhai a'n rhagflaenasant i fod yn agos, a'u bod yn cymeryd dyddordeb yn ein gyrfa ysprydol? Hyd nes y cawn *wybodaeth* i'r gwrthwyneb y mae yn fwy rhesymol genyf gredu fod lle y rhai ymadawedig yn agos, yn hytrach nag yn mhell.

D. R., T.

COFNODION Y MIS.

CRONFA YR UGEINFED GANRIF.—Yn y *Christian Life* am y 5ed, a'r *Inquirer* 12fed o Ionawr, ymddangosodd nodyn oddiwrth y Parch. R. J. Jones, M.A., yn awgrymu y priodoldeb o gasglu cronfa o £3000 gan Undodiaid Cymru. Fel Mr. Jones, llawenychem yn ddirfawr pe gwneid ymgais i gario'r awgrym allan. Mae pob enwad arall yn Nghymru a Lloegr wedi casglu eu miloedd (a chanoedd o filoedd rai o honynt). Nid yw nifer yr Undodiaid yn Nghymru yn lluosog; ond pwy a ŵyr beth allem wneud pe gosodem ein hysgwyddau wrth yr olwyn o ddifrif. Deallwn fod y mater dan ystyriaeth, a diau y clywir rhagor am dano yn ein rhifyn nesaf. Nis gallwn wneud rhagor yn awr na galw sylw ato, a datgan ein cydymdeimlad llwyraf ag ef.

Y DRYSORFA GYCHWYN.—Cydnabyddwyd o'r blaen, £38 18s. 9c. Derbyniwyd yn ychwanegol fel y canlyn—D. W. Jones, Victoria Sq., Aberdar, £1 1s.; J. Davies, Abercwm, 5s.; Mrs. Evans, Taliesin House, Llanbedr, £1; D. Davies, Castell Pencarreg, 2s. 6c., yr oll yn gwneud i fyny gyfanswm o £41 9s. 9c. Wrth gau y drysorfa, dymunwn ar ran y pwyllgor gyflwyno y diolchgarwch gwresocaf i garedigion yr achos. —W. J.

CASGLIAD YR YSGOLION SUL.—Cydnabyddwyd o'r blaen, £6 3s. 5c. Derbyniwyd yn mhellach fel y canlyn—Yn ychwanégol o Pantdefaid, 1s., yn gwneud 18s. 2c.; Bethlehem, Clydach Vale, 5s.; Brondeifi, 6s.; Ciliau, 3s. Cyfanswm £7 os. 5c.

CASGLIAD BLYNYDDOL Y GYMDEITHAS.—Yn ol y penderfyniad a basiwyd yn y cwrdd diweddaf yn Dowlais, bydd yn ddyledus yn ystod mis Mawrth. Gan mai hwn yw y prif gasgliad a wneir yn ein heglwysi at achosion tu allan iddynt hwy eu hunain, gobeithiwn na chaiff ei esgeuluso. Hwn yw y casgliad Undodaidd at y Genhadaeth, a dylai gael gymaint o sylw yn ein plith ag mae y "Genhadaeth" yn gael gydu'r enwadau eralll.—W. J.

WIG.—Nos Fawrth, Ionawr 15fed, cynaliwyd cyfarfod i gyflwyno anrhegion o Awrlais mynor, addurniadau pres, a swm o arian, i'r Parch. David Evans ar ei ymadawiad o'r lle i gymeryd gofal bugeiliol yr eglwys yn Cwmbach. Cafwyd anerchiad bywiog gan y Llywydd, y Parch. Dafydd Rees, Pentre, yn anog y gynulleidfa i fod yn ffyddlon i draddodiadau goreu eu cyndeidiau yn y Wig, ac i gofio nad yw gweinidog sefydlog yn anhebgorol i fodolaeth eglwys; am fod llwyddiant mwyaf dysglaer yr Eglwys Gristionogol wedi cymeryd lle yn y ganrif gyntaf a'r ail ganrif o'i hanes, pan nad oedd ganddynt weinidogion, yn yr ystyr ddiweddar i'r gair o gwbl. Cafwyd cân gan Hopkin John a Miss Gwladys Williams. Yna cafwyd anerchiadau gan ieuanc a hen, yr oll yn datgan eu teimladau hiraethlawn fod amgylchiadau yn gorfodi Mr. Evans i ymadael a'r gymydogaeth. Yr oedd ei yspryd caredig, a'i barodrwydd i helpu pawb wedi enill serch ac edmygedd, nid yn unig pobl Capel-y-Wig, ond pawb yn y gymydogaeth. Soniwyd am dymhorau o dês a drycin yn hanes y gynulleidfa yn ei phrofiad hir o yn agos i ddwy ganrif. Ac yn awr, pan oedd haul llwyddiant yn dechreu tywynu ar y gynulleidfa a'r Ysgol Sul dan ofal Mr. Evans, y mae ffawd, neu anffawd, yn ei symud o'r lle. Cyflwynwyd yr awrlais i Mr. Evans gan Miss Alice Thomas, a'r addurniadau gan Mrs. Margaret Beale, dwy chwaer hynaf yr eglwys. Y mae trefniadau yn cael eu gwneud gan Gymdeithas Undodaidd De

ddwyrain Cymru, tuag at lanw y pwlpud yn y dyfodol agos. Tywallted yr Arglwydd ei yspryd arnom.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.—Carem adgofio y gwahanol Ysgolion fod yr Arholiad yn agoshau. Dydd Gwener Ebrill y 12fed y cynhelir hi eleni.

MARWGOFION.

RHAGFYR 16eg, Rachel Evans, diweddar o Capel St. Silin, Cribyn, ond ar adeg ei marwolaeth Croesagod, ger Mydroilyn, yn nhy ei mherch. Dygwyd ei chorff i fynwent Capelygroes, Iau canlynol. Pregethwyd cyn cychwyn gan y Parch. J. Howell, Mydroilyn, ac yn y capel gan y gweinidog a'r Parch. L. Williams, Rhydygwin.

RHAGFYR 23ain, y Sul cyn Nadolig, ar ol cystudd byr, yn 21 mlwydd oed, Mrs. Evans, priod ieuanc Mr. Walter Evans, 10, Overton Street, Dowlais. Mae yn anhawdd sylweddoli fod y foneddiges hon, yr hon na fu ond tua phedwar mis yn briod, wedi dianc tuhwnt i'r llen. Merch ydoedd i Mr. a Mrs. Griffiths, Bruce Hotel, ac wedi iddi ymuno mewn priodas â Mr. Evans, yr hwn sydd yn fab i'r diweddar James Evans, dilledydd, Dowlais, darfu iddi ymaelodi yn yr Eglwys Undodaidd, a mawr oedd y sêl a ddygai dros yr achos da yn y lle, a chymerai ran flaenllaw yn ngwahanol symudiadau yr eglwys Ryw naw diwrnod cyn dydd ei marwolaeth cafodd ei tharo a'r *palsy* yr hyn a'i hanalluogodd i siarad, ond mynwesai y teulu obaith cryf y cawsai wellhad. Ar y dydd a nodwyd, fodd bynag, daeth cenad arall, ac ehedodd ei hyspryd at yr Hwn a'i rhoes. Dydd Iau canlynol, gosodwyd ei gweddillon i orphwys yn medd y teulu yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, Cefn, ac ar yr achlysur gwasanaethwyd i dorf fawr iawn gan y Parchn. J. E. Jenkins a J. Hathren Davies. Nodded y nef fyddo ar y priod sydd mewn galar dwys, a gobeithion cysurlawn yr efengyl a'i harweinio ar ei daith.

RHAGFYR 24ain, yn 91 mlwydd oed, David Davies, Pantglas, Llanarth, gynt o Pwllffein. Cafodd yr ymadawedig weled dyddiau lawer a mwynhaodd iechyd cymhedrol dda hyd y diwedd. Y dydd Iau canlynol claddwyd ei weddillion marwol yn Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., a Mr. E. O. Jenkins.

IONAWR 2il, yn 87 oed, bu farw Elizabeth Williams, gweddw y diweddar "Daniel Gloff," yn Drovers' Road, Llanbedr. Claddwyd ei gweddillion y Sadwrn canlynol yn Mynwent Capelygroes, y Parch. R. C. Jones yn gweinyddu yn y tŷ, a gweinidog y lle yn y Capel a'r Fynwent.

IONAWR 4ydd, yn dra disymwth, Gwenllian, gwraig Mr. John Pittard, Talwyn Cottage, Trecynon, Aberdare, a merch Mr. a Mrs. Jenkins o Green Hill gynt, yn 38 oed, gan adael priod a thri o blant i alaru eu colled. Yr oedd Mrs. Pittard yn hanu o deulu crefyddol, a dygai fawr sêl dros yr achos yn yr Hen Dy Cwrdd er yn blentyn. Cafodd gynhebrwng lluosog a pharchus. Claddwyd yn y *Cemetery*, y Parchn. David Rees a R. J. Jones yn gwasanaethu.

"*God's ways seem dark, but soon or late,*
They touch the shining hills of day."

IONAWR 10fed, ar ol wythnos o gystudd caled, yn 69 mlwydd oed, Daniel Davies, Bryn'rhogfan, Llanwenog, diweddar Lowtre, Llanwnen, ac un o ddiaconiaid Alltyplaca. Gadawodd weddw, mab a merch, yn nghyd a thair wyres fechan (dwy o honynt yn hollol amddifad) i alaru yn ddwys ar ei ol. Tad yr amddifaid

a Barnwr y gweddwon a fyddo'n dyner iawn wrthynt yn eu cyfyngder. Claddwyd yn mynwent Capel-y-Bryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog. Yr oedd yr angladd yn lluosog iawn ; yn ddangoseg o'r parch oedd i'r ymadawedig o fewn cylch ei adnabyddiaeth ar gyfrif ei rinweddau aml. "Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

IONAWR 10fed, o'r darfodedigaeth, David Jones, Coal merchant, Bryn-yreglwys, Llanbedr, diweddar Llwyn-ieir, ger Llanbedr, yn 41 mlwydd oed. Gadawodd mewn galar ar ei ol weddw ieuanc a thri o blant bychain, brodyr a chwiorydd, heblaw llu o berthynasau eraill, pell ac agos. Yr oedd ei angladd yn un o'r rhai mwyaf a welwyd yn y dref er ys blynyddau. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Jones (B.), Llanbedr ; wrth y drws gan y Parch. R. C. Jones, ac yn yr Eglwys a'r Fynwent, gan Offeiriad y plwyf.

IONAWR 30ain, yn Nodd-dy Caerfyrddin, bu farw Jenkin Davies, mab Anne Davies, Caecoch, ger Cribyn, yn 40 oed. Dydd Llun canlynol dygwyd ei gorff gyda'r gerbydres i orsaf Llanybyther, ac oddiyno i'w ddaearu yn mynwent eglwys Llanwnen. Daeth tyrfa luosog yn nghyd i dalu iddo'r gymwynas olaf. Heddwch i'w lwch.

IONAWR 31ain, ar ol cystudd hir, yn 76 mlwydd oed, Thomas Thomas, Ffinant Arms, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Alltyplaca ; a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur, i glywedigaeth cynulleidfa fawr, gan y gweinidog. Yr oedd yr ymadawedig wedi arwain bywyd tawel a thangnefeddus ; ac wedi magu teulu lluosog trwy ddiwydrwydd a chynildeb. Gadawodd i alaru'n ddwys ar ei ol, wyth o blant, pedwar o fechgyn a phedair o ferched, heblaw llawer o wyron. Nerth a gaffont oll i alaru'n gymedrol yn y gobaith am gyfarfod eto mewn gwlad na bydd raid ymadael byth mwy

IONAWR 31ain, Evan Jones, Gweithdy'r Undeb, Llanbedr, yn 43 mlwydd oed. Bu Mr. Jones yn feistr y *Workhouse* yn Llanbedr, am tua 22 o flynyddau, ac yr oedd ei ofal am y tylodion a'i gydymdeimlad a'i dynerwch atynt yn nghyd a'i gymhwysder cyffredinol at y swydd yn peru fod yna alar neillduol nid yn unig yn mhlith y tylodion a'r gwarcheidwaid, ond hefyd yn mhlith ei gydnabod yn mhob man, oherwydd ei symudiad sydyn ; ond er pob galar mae'r ffaith yn aros fod ein cyfaill hoff wedi rhodio rhydiau'r afon, ac nad yw ei le yn ei adwaen mwy. Yr oedd yn un o aelodau eglwys fechan Brondeifi, ac er nad oedd yn berffaith mwy nag aelodau eraill y lle, eto 'roedd llwyddiant yr achos yn agos at ei galon, a bu o bryd i bryd yn gwasanaethu gwahanol swyddau perthynol i'r capel. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw, tad, chwaer, a dau o frodyr, heblaw perthynasau eraill. Gwasanaethwyd yn y tŷ ar ddydd ei angladd gan y Parch. R. C. Jones, ac hebryngwyd ei weddillion gan dyrfa luosog i dŷ ei hir gartref, yn mynwent Eglwys Llanwnen, a gwasanaethwyd yno gan y Parch. Robert Williams, Llanbedr.

CHWEFROR 4ydd, yn flwydd a saith mis oed, James Edwin, mab bychan James ac Eliza Rees, Dolaullethi. Claddwyd yn mynwent Capel-y-Fadfa y dydd lau canlynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. E. J. Edwards, Bryn, Penrhiwgaled. Bydded i'r rhieni galarus gofio geiriau cysurlawn yr Iesu am blant bychain.

CHWEFROR 6ed, ar ol cystudd maith, yn 87 mlwydd oed, Margaret Davies, Nantffin, Llanwenog. Claddwyd, yn ol ei dymuniad, yn medd ei thad, y diweddar Benjamin Jones, Felinraber, yn mynwent Alltyplaca, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Capelygroes. Gadawodd un ferch, a chwech o wyrion i alaru ar ei hol. Tra na ddymunem hawlio perffeithrwydd i gymeriad yr hen chwaer hon gallwn anturio dweyd y perthynai iddi rinweddau ag a fyddai yn lles i fyd ac

eglwys pe byddai llawer yn rhagor o bobl yn eu meddu. Un o'r cyfryw oedd ei chysondeb yn yr addoliad cyhoeddus. Dros y rhan fwyaf o'r ganrif ddiweddaf anfynych y bu ei lle hi yn wag yn yr hen gapel a garai mor anwyl.

CHWEFROR 7fed, yn 91 oed, Mary Davies, Powell Castle, gynt o'r Groesffordd, Pencader. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i'r diweddar fardd, John Thomas, Pontshan, awdwr "Cwyn y Cristion," o'r hwn y mae yr emyn adnabyddus, "O'i gariad yn y dechreu," &c., wedi ei gymeryd allan. Yr oedd hithau wedi derbyn yn helaeth nodweddion ei thad. Yr oedd yn Undodwraig drwyddi. Er yn byw yn mhell o Llandyssul eto cyrchai yno yn gyson trwy'r blynyddoedd, tra y gallai. Darllenai lawer, a bu ei gwybodaeth eang o'r Beibl yn help mynych iddi mewn aml ddadleuon duwinyddol. Y Beibl oedd ei safon mewn crefydd, a'r *Faner* mewn gwleidyddiaeth, ac ni phinai ei chredo wrth lawes neb. Ei henw fyddo'n wyrddlas, a'i choffadwriaeth yn fendigedig. Gadawodd bedwar mab, wyrion, orwyrion, a pherthynasau lawer i alaru ar ei hol. Claddwyd y dydd Llun canlynol yn mynwent Llwynrhydowen ; y Parch. Arthur Thomas yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. T. Thomas, Y.H., a T. Lloyd Jones, B.D., Pencader.

PRIODAS.

RHAGFYR 22, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, Mr. Rees Davies, a Mrs. Anne Edwards, y ddau o dref Llanbedr.

COLOFN Y GOLYGWYR.

D. FF. D.—Diolch am eich cynyg i'n cynorthwyo. Barnwn, er hyny, na fedd y pwnc yr ymdriniwch ag ef un dyddordeb i'n darllenwyr, ac felly ni welwn yr atebai un dyben i gyhoeddi eich erthygl.

AT EIN DARLLENWYR.—Teimlwn mai anhegwch a'n darllenwyr yw cyhoeddi erthyglau Saesneg ar dudalenau YR YMOFYNYDD. Ond gan fod erthyglau y Prifathraw Evans wedi dechreu ymddangos yn yr iaith hono cyn iddo ddod dan ein gofal ni, gobeithio y byddwch ymharhous am ychydig droion. Ar ol hyny ni flinwn chwi yn y cyfeiriad hwn.

MEWN LLAW.—Mae'r erthyglau canlynol yn ein meddiant, a chânt ymddangos yn eu tro—"Undodiaid a'r Beibl," gan D. Delta Evans ; "Yr Undodiaeth eangach," gan y Parch. L. Jenkin Jones, Plumstead; "Yn Eisiau —Diwygiad newydd," gan y Parch. W. Tudor Jones, Abertawe.

Carem adgofio'n Gohebwyr caredig nad ydyw erthyglau maith yn dderbyniol iawn genym, na chwaith gan ein darllenwyr. Tua dau tudalen, man pellaf, dri, y dymunem iddynt fod. Dyledswydd anymunol ydyw cwtogi, ond bydd raid gwneud hyn, os yn rhy faith.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Cynhelir y Cwrdd Chwarterol nesaf yn Caeronen yn wythnos y Pasg. Manylion pellach yn rhifyn Ebrill.—W. J.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.